This document is also available in English

CYNNWYS


**ADRAN 5**

**5. Y Cabinet**

5.1 Cyflwyniad
5.2 Ffurf a Chyfansoddiad y Cabinet
5.3 Yr Arweinydd
5.4 Dirprwy Arweinydd
5.5 Aelodau Cabinet Eraill
5.6 Dirprwyo Swyddogaethau
5.7 Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol
5.8 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau
5.9 Rheolau'r Weithdrefn ar gyfer y Cabinet
5.10 Sut mae'r Cabinet yn Gweithredu?
5.11 Sut caiff Cyfarfodydd y Cabinet eu Cynnal?
5.12 Aflonyddwch gan y Cyhoedd, Recordiad Sain/Fideo neu Ddarllediad
5.13 Arweinwyr Cabinet ac Aelodau Cabinet yn rhannu swyddi

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyfrifoldebau Portffolio Cabinet
Atodiad 2- Protocol Ar Gyfer Penodi Cynghorwyr I'r Pwyllgor Gwaith
Atodiad 3 - Protocol ar Roi Mynediad i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i'r Cabinet
Atodiad 4 – Cylch Gorchwyl Is-bwyllgorau'r Cabinet

**ADRAN 6**

**6. Yr Arweinydd**

6.1 Etholiad
6.2 Cyfnod yn y swydd
6.3 Ymddiswyddiad, Diswyddo, Anghymwyso ac Atal
6.4 Dirprwy Arweinydd
6.5 Swyddogaethau ac Awdurdod Dirprwyedig

## ADRAN 5 - Y CABINET

### 5.1 Cyflwyniad

Mae'r Cabinet yn cael ei benodi i gyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, p'un ai trwy’r Gyfraith neu dan y Cyfansoddiad hwn.

### 5.2 Ffurf a Chyfansoddiad y Cabinet

Bydd y Cabinet yn cynnwys:

1.2.1 Arweinydd y Cyngor (yr “Arweinydd”); a

1.2.2 Bydd y Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor yn ogystal â 9 o gynghorwyr eraill wedi’u penodi i’r Cabinet gan yr Arweinydd. Wrth benodi cynghorwyr eraill o’r fath, bydd yr Arweinydd yn gweithredu er budd gorau'r Fwrdeistref Sirol ac yn cydymffurfio â’r Protocol ar gyfer penodi Cynghorwyr i’r Cabinet,

### 5.3 Yr Arweinydd

1.3.1 Etholiad

(a) Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd sy’n cael ei ethol i swydd Arweinydd gan y Cyngor.

(b) Gall ddau neu fwy o Gynghorwyr gael eu hethol i rannu swydd yr Arweinydd gan y Cyngor

1.3.2 Cyfnod yn y swydd

(a) Bydd yr Arweinydd yn y swydd ar gyfer tymor llawn y Cyngor neu tan:-

(b) bydd ef/hi yn ymddiswyddo; neu

(c) mae ef/hi yn cael ei atal rhag bod yn gynghorydd o dan Adran III o’r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ef/hi ddychwelyd i’w swydd ar ddiwedd y cyfnod atal): neu

(d) nid yw ef/hi yn gynghorydd bellach; neu

(e) cael gwared arno ef/hi o’r swydd drwy benderfyniad y Cyngor.

1.3.3 Rôl yr Arweinydd

Bydd yr Arweinydd yn Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet ac yn penderfynu ar bortffolios Aelodau’r Cabinet. Mae mwy o wybodaeth wedi’i chynnwys yn Adran 6.

### 5.4 Dirprwy Arweinydd

1.4.1 Bydd yr Arweinydd yn penodi Dirprwy Arweinydd i weithredu fel Arweinydd yn absenoldeb yr Arweinydd a gall hefyd os yw ef/hi yn meddwl bod hynny’n addas gael gwared ar y Dirprwy Arweinydd o’r swydd ar unrhyw adeg.

1.4.2 Gall y Dirprwy Arweinydd arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd os bydd y swydd yn wag neu os yw'r Arweinydd yn absennol neu fel arall yn methu â gweithredu.

## 5.5 **Aelodau Cabinet Eraill**

Bydd Aelodau eraill y Cabinet yn Gynghorwyr a etholwyd i swydd Aelod Cabinet gan yr Arweinydd. Bydd pob Aelod o'r Cabinet yn y swydd hyd nes:

1.5.1 bydd ef/hi yn ymddiswyddo; neu

1.5.2 os bydd ef/hi yn cael ei wahardd o'r swydd honno gan yr Arweinydd ar hysbysiad o'r fath (os o gwbl) fel yr ystyrir yn briodol gan yr Arweinydd; neu

1.5.3 ef/hi yn rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd.

1.5.4 mae ef/hi yn cael ei atal rhag bod yn gynghorydd o dan Adran III o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ef/hi ddychwelyd i'w swydd ar ddiwedd y cyfnod atal).

Gall yr Arweinydd ar unrhyw adeg benodi Aelod Cabinet i lenwi unrhyw swyddi gwag.

## 5.6 **Dirprwyo Swyddogaethau**

Gall y trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gweithredol gael eu nodi yn y trefniadau gweithredol a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Os nad ydynt wedi'u nodi yno, yna gall yr Arweinydd benderfynu sut y cânt eu hymarfer. Ymhob achos, gall y trefniadau neu'r Arweinydd ddarparu i swyddogaethau'r Cabinet gael eu cyflawni gan:

1.6.1 y Cabinet cyfan;

1.6.2 pwyllgor o'r Cabinet (yn cynnwys Aelodau Cabinet yn unig);

1.6.3 aelod unigol o'r Cabinet;

1.6.4 cydbwyllgor;

1.6.5 Awdurdod lleol arall neu Gabinet awdurdod lleol arall; a ddylwn ni gyfeirio at Gyd-drefniadau Erthygl 10 yma?

1.6.6 Swyddog dynodedig.

## 5.7 **Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol**

1.7.1 Gall Gynghorwyr eraill, o bryd i'w gilydd, gael eu dynodi gan yr Arweinydd fel Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol. Ni fydd Cynghorwyr o'r fath yn:

(a) Aelod o'r Cabinet

(b) Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

1.7.2 Ni fydd Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol yn cymryd rhan mewn gwneud Penderfyniadau Gweithredol, ond gallent weithio'n agos gydag Aelod o'r Cabinet. Ni fydd ef/hi yn Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â chyfrifoldebau penodol yr

Aelod Cabinet y mae ef/hi yn eu cynorthwyo nac unrhyw faes arall y cânt eu dynodi iddynt.

1.7.3 Gall Cynorthwy-ydd i'r Pwyllgor Gweithredol gefnogi'r Aelod Cabinet trwy ddyrannu tasgau fel y cytunwyd ar gyfer ei faes/maes o gyfrifoldeb, gan gynnwys mynychu/cadeirio cyfarfodydd; siarad mewn/agor digwyddiadau; darllena gwneud sylwadau ar bapurau; cwrdd â Swyddogion; cytuno ar ddatganiadau/sylwadau i'r wasg a chyflawni cyfweliadau; cynrychioli'r Cyngor ar grwpiau priodol. Fodd bynnag, ni fydd Aelod Cefnogi'r Pwyllgor Gweithredol â phwerau dirprwyedig ac ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio mewn Cyfarfodydd Cabinet na Chyfarfodydd Pwyllgor Cabinet, na dirprwyo ar gyfer Aelod Cabinet pan fydd yr Aelod Cabinet yn cael eu galw i ymddangos yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

1.7.4 Mae Cynorthwy-ydd i'r Pwyllgor Gweithredol â hawl i fynychu, a siarad mewn unrhyw gyfarfod y Cabinet neu bwyllgor y Cabinet.

## 5.8 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau

Bydd trafodaethau'r Cabinet yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cabinet yn Adran 5.9 isod. Ni ddylai unrhyw benderfyniad, oni bai am benderfyniadau mewn perthynas â threfniadaeth busnes y Cabinet, gael eu gwneud mewn cyfarfod preifat, anffurfiol o'r Cabinet.

## 5.9 Rheolau'r Weithdrefn ar gyfer y Cabinet

Bydd trafodion y Cabinet yn cael eu cynnal yn unol â'r rheolau isod.

## 5.10 Sut mae'r Cabinet yn Gweithredu?

1.10.1 Dirprwyo gan yr Arweinydd

Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Swyddog Monitro, ar gyfarwyddyd yr Arweinydd, yn llunio cofnod ysgrifenedig o ddirprwyaethau'r Cabinet a wnaed gan yr Arweinydd ar gyfer eu cynnwys yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am Swyddogaethau'r Cabinet mewn perthynas â'r flwyddyn i ddod:

a) graddfa unrhyw awdurdod a ddirprwyir i Aelodau Cabinet yn unigol, gan gynnwys manylion y cyfyngiadau ar eu hawdurdod;

b) cylch gorchwyl a chyfansoddiad pwyllgorau Cabinet o'r fath wrth i'r Arweinydd benodi ac enwau'r Aelodau Cabinet a benodwyd arnynt;

c) natur a graddfa unrhyw ddirprwyaeth o Swyddogaethau'r Cabinet i unrhyw awdurdod arall neu unrhyw gyd-drefniadau;

d) natur a graddfa unrhyw ddirprwyaeth i Swyddogion gyda manylion unrhyw gyfyngiad ar y ddirprwyaeth honno, a theitl y Swyddog y gwneir y ddirprwyaeth; a

1.10.2 Is-Ddirprwyaeth o Swyddogaethau'r Cabinet

a) Os yw Cabinet, pwyllgor y Cabinet neu Aelod unigol o'r Cabinet yn gyfrifol am Swyddogaeth Cabinet, gallent ddirprwyo ymhellach i gyd-drefniadaeth neu i Swyddog.

b) Oni bai bod yr Arweinydd yn cyfarwyddo fel arall, gall bwyllgor o'r Cabinet lle mae swyddogaethau wedi cael eu dirprwyo gan yr Arweinydd, ddirprwyo ymhellach i Swyddog.

c) Pan fo Swyddogaethau Cabinet wedi eu dirprwyo, nid yw'r ffaith honno'n atal cyflawni swyddogaethau a ddirprwyir gan y person neu'r corff a'u dirprwyodd.

1.10.3 Cynllun Dirprwyo'r Cyngor a Swyddogaethau Cabinet

a) Yn amodol ar (ii) isod bydd cynllun dirprwyo'r Cyngor yn ddarostyngedig i'w fabwysiadu gan y Cyngor a dim ond gan y Cyngor y caiff ei ddiwygio.

b) Gan fod yr Arweinydd yn gallu penderfynu pa un ai i ddirprwyo swyddogaethau'r Cabinet, gall ef/hi ddiwygio'r cynllun dirprwyo sy'n ymwneud a swyddogaethau'r Cabinet unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, mae'n rhaid i'r Arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol (e.e. Swyddog Monitro) a'r unigolyn, corff neu bwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd nodi faint o newid sydd i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n cynnwys cael gwared â dirprwyaeth oddi wrth unrhyw unigolyn, corff, pwyllgor neu'r Cabinet cyfan. Bydd y Swyddog Priodol yn cyhoeddi'r newidiadau a wneir i'r cynllun dirprwyo gan yr Arweinydd trwy wefan y Cyngor a Llyfr Gwybodaeth yr Aelodau. Bydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor gan nodi'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

c) Ble bydd yr Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth o bwyllgor y Cabinet, ystyrir y bydd rhybudd wedi'i gyflwyno ar y pwyllgor hwnnw pan fydd wedi'i gyflwyno i'w gadeirydd.

1.10.4 Gwrthdaro Buddiannau

a) Os oes gan yr Arweinydd wrthdaro buddiannau, dylid delio â hyn fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 19 y Cyfansoddiad hwn.

b) Os oes gan unrhyw Aelod o'r Cabinet wrthdaro buddiannau, dylid delio â hyn fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 19 y Cyfansoddiad hwn.

c) Os yw ymarfer Swyddogaeth Cabinet wedi ei ddirprwyo i bwyllgor y Cabinet, neu Aelod unigol neu Swyddog, a phe bai gwrthdaro’n codi o ran buddiannau, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei harfer yn y lle cyntaf gan y person neu'r corff y dirprwywyd iddynt ac fel arall fel y nodir yng Nghod Ymddygiad Aelodau’r Cyngor yn Adran 19 y Cyfansoddiad hwn.

1.10.5 Cyfarfodydd y Cabinet - Pryd a Ble?

Bydd amlder ac amser cyfarfodydd y Cabinet yn cael ei benderfynu gan yr Arweinydd. Bydd y Cabinet yn cwrdd ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu mewn lleoliad arall i’w gytuno gyda’r Arweinydd. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad yn gymwys i gyfarfodydd y Cabinet.

1.10.6 Cyfarfodydd Cyhoeddus neu Breifat o’r Cabinet?

Bydd y Cabinet yn cynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus, ac eithrio mewn amgylchiadau a nodir yn Rheolau Gweithdrefnau Hawl i Wybodaeth yn Adran 15, er enghraifft pan fydd gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth wedi’i heithrio yn cael eu trafod.

1.10.7 Cworwm

Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Cabinet fydd 5 gan gynnwys yr Arweinydd neu’r Dirprwy Arweinydd.

1.10.8 Mynychu o Bell

(a) Bydd Aelodau yn cael eu hystyried yn bresennol mewn cyfarfod y Cabinet os ydynt yn mynychu’r cyfarfod hwnnw o bell yn unol â threfniadau’r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, ar yr amod eu bod yn gallu siarad, clywed a chael eu clywed gan eraill sy’n bresennol yn y cyfarfod.

(b) At ddibenion Adran 5.10.8, mae presenoldeb “drwy ddulliau o bell” yn golygu presenoldeb mewn lleoliad gwahanol i eraill ysydd yn y cyfarfod a chymryd rhan drwy lwyfan ar-lein.

1.10.9 Sut fydd y Cabinet yn gwneud penderfyniadau?

a) Bydd Penderfyniadau’r Cabinet a wneir gan y Cabinet cyfan yn cael eu gwneud mewn cyfarfod a elwir yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Hawl i Wybodaeth yn Adran 15 y Cyfansoddiad hwn.

b) Pan fo Penderfyniadau Cabinet yn cael eu dirprwyo i bwyllgor y Cabinet, bydd y rheolau sy'n berthnasol i Benderfyniadau Cabinet a wna'r pwyllgor yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet yn gyffredinol.

## 5.11 Sut caiff Cyfarfodydd y Cabinet eu Cynnal?

1.11.1 Pwy sy'n llywyddu?

Bydd yr Arweinydd yn llywyddu mewn unrhyw gyfarfod y Cabinet neu ei bwyllgorau y mae ef/hi yn bresennol. Yn ei h/absenoldeb, bydd y Dirprwy Arweinydd yn llywyddu. Yn absenoldeb y ddau ohonynt, bydd person a benodir gan y rhai sy'n bresennol yn llywyddu.

1.11.2 Pwy all fod yn bresennol?

Mae'r manylion hyn wedi eu nodi yn y Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth yn Adran 15 y Cyfansoddiad hwn. Gweler hefyd Adran 3 mewn perthynas â chyfranogiad Aelodau mewn cyfarfodydd.

1.11.3 Pa fusnes?

Ym mhob cyfarfod o'r Cabinet, bydd y busnes canlynol yn cael eu cynnal:

(a) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(b) datgan cysylltiad, os oes rhai;

(c) materion a gyfeiriwyd at y Cabinet (boed gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu gan y Cyngor) i'w hailystyried gan y Cabinet yn unol â'r darpariaethau a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu neu'r Rheolau Gweithdrefn Fframwaith Polisi a Chyllideb a nodir yn Adrannau 7 ac 16 y Cyfansoddiad hwn;

(d) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu;

(e) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau Cabinet;

(f) adroddiadau gan Swyddogion yr Awdurdod.

1.11.4 Ymgynghori

Rhaid i holl adroddiadau i'r Cabinet gan unrhyw Aelod o'r Cabinet neu Swyddog ar gynigion sy'n ymwneud â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, gynnwys manylion am natur a maint yr ymgynghori a gyflawnwyd gyda budd-ddeiliaid a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau am faterion eraill yn nodi manylion a chanlyniad yr ymgynghori fel y bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n angenrheidiol yn briodol i natur y mater dan ystyriaeth.

1.11.5 Pwy all roi Eitemau ar Raglen y Cabinet?

(a) Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet. Gall ef/hi roi unrhyw fater ar raglen unrhyw gyfarfod y Cabinet p’un a yw awdurdod wedi cael ei

ddirprwyo i'r Cabinet, pwyllgor o'r cabinet neu unrhyw Aelod neu Swyddog ai peidio, mewn perthynas â'r mater hwnnw.

(b) Gall unrhyw Aelod o'r Cabinet roi eitem ar raglen y cyfarfod nesaf y Cabinet ar gyfer ei ystyried.

(c) Bydd hysbysiad y cyfarfod yn nodi enw'r Cynghorydd a ofynnodd i'r eitem gael ei hystyried a gwahoddir yr unigolyn i fynychu'r cyfarfod p'un ai fod y cyfarfod yn un cyhoeddus ai peidio, a bydd yn cael caniatâd i roi sylw yn y cyfarfod mewn perthynas â'r eitem, oni bai y gwrthodir yr unigolyn rhag gwneud hynny yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau.

(d) Gall y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Ariannol gynnwys eitem ar gyfer ei hystyried ar raglen cyfarfod Cabinet a gallent ei gwneud yn ofynnol i gyfarfod o'r fath gael ei alw n ôl eu dyletswyddau statudol.

(e) Mewn amgylchiadau, lle bydd unrhyw ddau o'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog Ariannol a'r Swyddog Monitro o'r farn bod angen galw cyfarfod Cabinet er mwyn ystyried mater sydd angen ei benderfynu, gallent gynnwys eitem ar raglen cyfarfod y Cabinet ar y cyd. Os nad oes cyfarfod i ddelio â'r mater dan sylw, yna gall yr unigolyn/unigolion sydd â hawl i gynnwys eitem ar y rhaglen, ei gwneud yn ofynnol i gyfarfod gael ei ystyried er mwyn trafod y mater.

**5.12 <u>Aflonyddwch gan y Cyhoedd, Recordiad Sain/Fideo neu Ddarlledaid</u>**

1.12.1 Mae'r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Adran 4 mewn perthynas ag aflonyddwch gan y cyhoedd yn gymwys i gyfarfodydd y Cabinet.

1.12.2 Mae'r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Adran 4 mewn perthynas â ffilmio a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn gymwys i gyfarfodydd y Cabinet.

**5.13 <u>Arweinwyr Cabinet ac Aelodau Cabinet yn rhannu swyddi</u>**

1.13.1 Gall unrhyw etholiad neu benodiad i'r Cabinet (gan gynnwys yr Arweinydd) gynnwys ethol dau neu fwy o Gynghorwyr i rannu swydd.

1.13.2 Os yw dau neu fwy o Aelodau wedi cael eu hethol neu benodi i rannu'r un swydd ar y Cabinet, uchafswm nifer aelodau'r Cabinet, gan gynnwys yr Arweinydd/Arweinwyr, fydd:

(a) 12, lle mae o leiaf dau o aelodau wedi cael eu hethol neu benodi i rannu swydd; neu

(b) 13, lle mae o leiaf tri o aelodau wedi cael eu hethol neu benodi i rannu swydd.

1.13.3 Bydd aelodau o'r [Cabinet sy'n rhannu'r un swydd yn cael un bleidlais rhyngddynt o ran unrhyw faterion sydd ganddynt yr hawl i bleidleisio arnynt yn sgil eu haelodaeth o'r Cabinet.

1.13.4 Os fydd mwy nac un aelod sy'n rhannu'r un swydd yn mynychu unrhyw gyfarfod, a bod yr aelodau hynny'n mynychu yn eu rhinwedd fel aelod o'r [Cabinet, maent yn cyfrif fel un person yn unig ar gyfer penderfynu os oes cworwm yn y cyfarfod.

**ADRAN 5 – ATODIAD 1**

**CYFRIFOLDEBAU PORTFFOLIO CABINET**

**Mae disgwyl i ddeiliaid portffolio oruchwylio a monitro'r gwasanaethau a swyddogaethau sydd wedi eu clustnodi ar eu cyfer. Fe ddylent ddarparu'r arweinyddiaeth wleidyddol angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau a swyddogaethau hynny yn perfformio'n effeithiol ac yn unol â, nid yn unig polisïau'r Cyngor, ond hefyd sicrhau fod unrhyw gynigion a phenderfyniadau yn ystyried yr effaith y gallent ei gael ar fywydau pobl yn ardal y Cyngor yn y dyfodol drwy weithredu'r egwyddor datblygu gynaliadwy a'r 5 dull canlynol o weithio – hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio; cyfranogiad.**

**Tasg deiliaid portffolio yw cefnogi'r amcanion a'r targedau sydd wedi eu gosod yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau gwelliant cyson yn y modd y caiff gwasanaethau eu darparu mewn dull sy'n fesuradwy a thryloyw.**

**Gellir hefyd ddisgwyl i ddeiliaid portffolio gynrychioli'r Cyngor wrth ymdrin â chyrff a sefydliadau allanol mewn perthynas â'u meysydd portffolio hefyd.**

**Yn ogystal â'r swyddogaethau a restrir isod mae gan yr holl ddeiliaid Portffolio gyfrifoldeb ar y cyd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chydraddoldeb ac amrywiaeth; ac i ymrwymo a chyfathrebu'n effeithiol.**

**Arweinydd (y Cynghorydd Charlie McCoubrey)**

- Cyllid a'r Strategaeth Gyllid
- Cysylltiadau â Llywodraeth Cymru
- Cysylltiadau â Llywodraeth Leol
- Rhwydweithiau Strategol
- Cydbwyllgorau Corfforedig
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynllunio rhag Argyfwng
- Datblygu Polisi Strategol

**Dirprwy Arweinydd (y Cynghorydd Emily Owen)**

**Tai, Digartrefedd a Newid Gwasanaeth**

- Y Strategaeth Tai

- Gwasanaethau Tai
- Digartrefedd
- Rheoli Datblygu (Cynllunio)
- Rheoli Adeiladu
- Tai’r Sector Preifat
- Cefnogi Pobl
- Rhentu Doeth Cymru
- Gwasanaethau Derbyn Ffoaduriaid
- Newid Gwasanaeth

**Economi Cynaliadwy (y Cynghorydd Nigel Smith)**

- Datblygiad Economaidd a Chyllid
- Refeniw a Budd-daliadau
- Diwygio Lles
- Ystâd y Cyngor a’i Asedau Eiddo

**Addysg (y Cynghorydd Julie Fallon)**

- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (arfer cael ei alw’n Ysgolion yr 21ain Ganrif)
- Gwelliannau Ysgolion
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion
- Lles a Chynhwysiant Addysgol
- Bwyd mewn ysgolion a lles
- Cludiant i’r Ysgol a Derbyniadau (Polisi)
- Addysg a Safonau Meithrin
- Pobl Ifanc sydd ddim mewn Gwaith, Addysg na Hyfforddiant

- Gwasanaeth Ieuenctid
- Dysgu a Sgiliau Oedolion
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

**Plant, Teuluoedd a Diogelu (y Cynghorydd Cathy Augustine)**

- Aelod Arweiniol Plant
- Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth
- Plant sy’n Derbyn Gofal
- Diogelu
- Pobl Ddiamddiffyn
- Iechyd Meddwl Cymunedol
- Cyfiawnder Ieuenctid
- Prosiectau Cyfalaf Gofal Cymdeithasol Penodol

**Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig (y Cynghorydd Penny Andow)**

- Prosiectau Cyfalaf Gofal Cymdeithasol Penodol
- Lles Cymunedol
- Anabledd
- Gwaith Cymdeithasol Pobl Hŷn ac Ysbytai
- Safonau Ansawdd a Chomisiynu
- Gofalwyr

**Isadeiledd, Cludiant a Chyfleusterau (y Cynghorydd Goronwy Edwards)**

- Rheoli Cyfleusterau
- Yr Arfordir a’r Harbwr
- Gwasanaethau Claddu
- Perygl Llifogydd ac Isadeiledd

- Cludiant
- Cludiant cyhoeddus
- Ymgynghoriaeth Isadeiledd
- Mannau Agored
- Rheoli Traffig a'r Rhwydwaith

**Cymdogaeth a'r Amgylchedd (y Cynghorydd Geoff Stewart)**

- Her yr Hinsawdd
- Polisi Cynaliadwyedd
- Prosiectau Ynni a Rheoli Carbon
- Ailgylchu a Gwastraff
- Gwarchod y Cyhoedd
- Trwyddedu
- Diogelwch Cymunedol
- Iechyd a Diogelwch

**Diwylliant, Llywodraethu a TG (y Cynghorydd Dilwyn Roberts)**

- Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy
- Iaith Gymraeg (yn cynnwys cyfieithu)
- Democratiaeth a Gwasanaethau Democrataidd
- Ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gwasanaethau Cofrestru
- Canolbwyntiau Cymunedol/Llyfrgelloedd ac Archifau
- Datblygu Diwylliant a'r Celfyddydau

- Theatrau a’r Ganolfan Gynadledda
- Digwyddiadau
- Hamdden/Byw’n Iach ac yn Egnïol
- Cyfathrebu a Marchnata
- Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol

**Archwilio, Polisi a Pherfformiad (y Cynghorydd Chris Cater)**

- Archwilio a Chaffael
- Rheoli risg
- Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol
- Rheoli Prosiect
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Cwynion a Chanmoliaeth Gorfforaethol
- Adnoddau Dynol
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Datblygu Sefydliadol Corfforaethol
- Cynllunio Defnydd Tir Strategol (CDLlN)

**ADRAN 5 – ATODIAD 2**

## PROTOCOL AR GYFER PENODI CYNGHORWYR I'R PWYLLGOR GWAITH

Yn unol ag Erthygl 7 y Cyfansoddiad, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys Arweinydd y Cyngor yn ogystal â hyd at 9 Cynghorydd arall a benodir i'r Pwyllgor Gwaith gan yr Arweinydd. Wrth benodi Cynghorwyr eraill o'r fath, bydd yr Arweinydd yn gweithredu er lles y Fwrdeistref Sirol.

Wrth benodi Cynghorwyr i'r Pwyllgor Gwaith (naill ai ar ddechrau tymor newydd neu yn sgil newidiadau yn ystod y tymor), bydd yr Arweinydd yn ystyried nifer o faterion mewn ymdrech i sicrhau cydbwysedd yn aelodaeth y Pwyllgor Gwaith, megis:

- Aliniad gwleidyddol
- Amrywiaeth
- Cymysgedd o siaradwyr Cymraeg a Saesneg
- Cymysgedd o Gynghorwyr sy'n cynrychioli'r cymunedau trefol/gwledig
- Cymysgedd o Gynghorwyr sy'n cynrychioli daearyddiaeth eang y Fwrdeistref Sirol

Mae'r gallu i gyflawni cydbwysedd cyffredinol o'r uchod yn dibynnu ar aelodaeth y grwpiau 'gwleidyddol' hynny a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith.

Ar ddechrau pob gweinyddiaeth, unwaith y bydd yr Arweinydd wedi cael ei benodi gan y Cyngor bydd ef / hi yn nodi Cynghorwyr posibl i ymgymryd â swydd Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac yn ymgynghori â'r Arweinyddion Grwpiau o dan sylw. Gall Cynghorwyr gyflwyno datganiad o ddiddordeb mewn dod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith trwy eu Harweinydd Grŵp.

Yn ogystal â'r materion a restrir uchod, bydd yr Arweinydd yn ystyried cryfderau a galluoedd unigol ac yn cyfateb y Cynghorwyr hynny â phortffolio dros dro. Bydd y Cynghorwyr hynny yn cael gwybod am drafodaethau'r Arweinydd ac yn cael cyfle i ystyried y cynigion a gyflwynir. Gall y Cynghorwyr dan sylw naill ai gadarnhau eu bod yn fodlon ar y cynigion a gyflwynwyd gan yr Arweinydd neu ofyn i'r Arweinydd ystyried ateb arall, e.e. cyfnewid portffolio, neu addasu maes cyfrifoldeb portffolio. Bydd yr Arweinydd yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw awgrymiadau, ond yr Arweinydd sy'n parhau i fod â'r penderfyniad terfynol.

Unwaith y bydd y broses uchod yn gyflawn bydd yr Arweinydd yn rhoi gwybod i'r holl Gynghorwyr a staff am ei benderfyniad drwy e-bost. Yng nghyfarfod nesaf y Cyngor sydd ar gael, bydd yr Arweinydd yn cyflwyno aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ffurfiol a byddant yn cael cyfle i annerch y Cyngor yn gryno ar eu penodiad a'r hyn y maent yn bwriadu ei gynnig i swydd Aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

Yr Arweinydd sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad aelodau'r Pwyllgor Gwaith a byddant yn ymgymryd ag Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad (PDR) rheolaidd. Mae angen i'r Arweinydd gael ymddiriedaeth a hyder llawn yng ngallu aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Efallai y bydd yna adegau pan fydd yr Arweinydd yn penderfynu, er budd y Fwrdeistref Sirol, i adrefnu cyfrifoldebau portffolio neu wneud newidiadau i aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

Cyn i unrhyw newid ddigwydd, bydd yr Arweinydd yn ymgynghori â'r Cynghorydd/Cynghorwyr yr effeithir arnynt gan y newid arfaethedig a'u Arweinydd(ion) Grŵp. Er y bydd cyfle i'r Cynghorydd/Cynghorwyr a allai gael eu heffeithio a'u Arweinydd(ion) Grŵp i wneud sylwadau ar gynigion a gyflwynwyd gan yr Arweinydd, penderfyniad i'r Arweinydd fydd hwn yn y pen draw.

Bydd unrhyw Aelod a benodir i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y tymor yn cael yr un cyfle i annerch y Cyngor ar eu penodiad a'r hyn y maent yn bwriadu ei gynnig i swydd Aelod o'r Pwyllgor gwaith.

Yn ychwanegol at ofynion Erthygl 7 y Cyfansoddiad, o dan rai amgylchiadau gall Aelod Gweithredol ofyn am absenoldeb (di-dâl) o fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith, (er enghraifft, yn y cyfnod yn arwain at unrhyw etholiadau cenedlaethol y mae'r aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu sefyll ynddo). O dan amgylchiadau o'r fath gall yr Arweinydd hefyd ofyn i Aelod o'r Pwyllgor Gwaith gymryd cyfnod o absenoldeb (di-dâl) os yw'r Arweinydd yn teimlo bod y Cynghorydd yn annhebygol o allu cyflawni swydd Aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn effeithiol yn ystod y cyfnod penodol hwnnw er lles y Fwrdeistref Sirol.

Yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb, efallai y bydd yr Arweinydd yn penderfynu penodi Aelod arall i ymgymryd â swydd Aelod o'r Pwyllgor Gwaith (yn unol â'r broses uchod). Os yw hynny'n digwydd, bydd taliad yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun Tâl Aelodau a gymeradwywyd.

**ADRAN 5 – ATODIAD 3**

**PROTOCOL AR ROI MYNEDIAD I AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH I BWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU A CHADEIRYDDION PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU I'R CABINET.**

1. **Cyfarfodydd y Cabinet**

Mae Rheolau Trefn Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn nodi y bydd –

a) Materion a gyfeirir i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer eu hailystyried yn unol a'r Rheolau Trosolwg a Chraffu ac

b) Adroddiadau oddi wrth Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Archwilio yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith.

Hefyd –

Gall unrhyw aelod o'r Cyngor ofyn am gael gosod eitem ar raglen cyfarfod cyfleus nesaf y Cabinet. Bydd yr aelod ddim ond yn cael hawl i annerch y cyfarfod mewn perthynas â'r eitem honno. Serch hynny, dim ond 2 eitem o'r math yma y gellir eu cynnwys mewn cyfarfod o'r Cabinet.

Yn amodol ar yr uchod, mae gan Gadeirydd y cyfarfod y disgresiwn i ganiatáu i rai nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith i annerch y cyfarfod hwnnw.

2. **Cyfarfodydd o Bwyllgorau ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Yn amodol ar yr hyn a ddywedir isod, mae gan Gadeirydd y cyfarfod y disgresiwn i ganiatáu i rai nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor i annerch y cyfarfod.

Dan Reolau Trefn y Cyngor, serch hynny, -

a) Gall yr Arweinydd a/neu Ddeilia(i)d y Portffolio(s) priodol ddod i gyfarfodydd Pwyllgorau nad ydynt yn aelod ohonynt, a siarad ynddynt, ond ddim pleidleisio.

b) Gall aelod ddod i gyfarfodydd nad yw'n aelod ohonynt, a siarad ynddynt mewn perthynas ag eitemau sy'n effeithio ar ei r(h)anbarth etholiadol ei hun, ond nid os yw'r eitem yn berthnasol mewn modd tebyg i rannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol.

(c) Nid oes angen i Aelodau'r Cabinet gyflwyno adroddiadau i Bwyllgorau Craffu.

(d) Dylai Aelodau'r Cabinet fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu lle bynnag bo'n bosibl, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r drafodaeth, a fydd yn cynorthwyo wrth gyflwyno adroddiadau i'r Cabinet. Os na fydd yr Aelod Cabinet yn gallu mynychu cyfarfod y pwyllgor Craffu, ni ddylai hyn oedi'r broses gwneud penderfyniadau mewn unrhyw ffordd, ond dylid darparu eglurhad am pam nad ydynt yn gallu bod yn bresennol.

3. **Symud i sefyllfa o fynediad cyfartal mewn perthynas â'r Cabinet a'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu**

Fel y gellir gweld uchod, mae'r Cyfansoddiad yn caniatáu mynediad i'r Arweinydd a/neu Ddeilia(i)d y Portffolio(s) priodol i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Mewn perthynas â mynediad gan Gadeiryddion neu Is-Gadeiryddion Trosolwg a Chraffu i'r Cabinet pan gyflwynir eu hadroddiadau, mae'r Cyfansoddiad yn nodi pan gyflwynir adroddiadau o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Cabinet, fod gan Gadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu dan sylw yr hawl i annerch y Cabinet a'i fod yn cael amser rhesymol i wneud hynny. Mater i Gadeirydd y Cabinet yw penderfynu faint o amser sy'n rhesymol i'w ganiatáu, gan ystyried pwysigrwydd a/neu gymhlethdod y mater dan sylw yn ogystal â'r angen i reoli rhaglen y Cabinet yn effeithiol.

## ADRAN 5 – ATODIAD 4

## Cylch Gorchwyl Is-bwyllgorau'r Cabinet

Sefydlodd Cabinet y Cyngor yr is-bwyllgorau canlynol, a nodir yma er gwybodaeth, ond efallai y bydd y Cabinet yn ei newid / eu newid neu'n ychwanegu atynt o bryd i'w gilydd.

| **Y Corff sy'n Gwneud y Penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Swyddogaethau** |
|---|---|---|
| Is-Bwyllgor y Cabinet - Apeliadau Rhyddhad Dewisol / Lliniaru Caledi | 6 aelod o'r Cabinet | Ystyried apeliadau yn erbyn rhyddhad dewisol / lliniaru caledi e.e. penderfyniadau eiddo gwag |
| Is-bwyllgor y Cabinet – Unigolyn Cymwys ac Addas | 3 aelod o'r Cabinet a'r Arweinydd fel aelod wrth gefn | Penderfynu, dan Gynllun cofrestru Tai Amlbreswyl 2002, a yw unigolyn sy'n gwneud cais i gael ei gofrestru fel unigolyn â rheolaeth yn unigolyn cymwys ac addas.<br><br>Penderfynu ar geisiadau neu adolygiadau i weld os yw'r ymgeisydd yn berson addas o dan ddarpariaeth Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 |

**ADRAN 6 - YR ARWEINYDD**

**6.1 Etholiad**

2.1.1 Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd sy'n cael ei ethol i swydd Arweinydd gan y Cyngor.

2.1.2 Bydd yr Arweinydd yn arfer cael ei ethol am gyfnod o bum mlynedd yng nghyfarfod blynyddol cychwynnol y Cyngor. Fodd bynnag, lle mae'r swydd Arweinydd yn wag rhwng etholiadau Cyngor bydd yr Arweinydd yn cael ei ethol yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

**6.2 Cyfnod yn y swydd**

Bydd yr Arweinydd yn y swydd ar gyfer tymor llawn y Cyngor neu tan:-

6.2.1 bydd ef/hi yn ymddiswyddo; neu

6.2.2 mae ef/hi yn cael ei atal rhag bod yn gynghorydd o dan Adran III o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ef/hi ddychwelyd i'w swydd ar ddiwedd y cyfnod atal): neu

6.2.3 nid yw ef/hi yn Gynghorydd bellach; neu

6.2.4 cael gwared arno ef/hi o'r swydd drwy benderfyniad y Cyngor.

**6.3 Ymddiswyddiad, Diswyddo, Anghymwyso ac Atal**

6.3.1 Gall yr Arweinydd ymddiswyddo o swydd Arweinydd trwy ysgrifennu at y Cadeirydd.

6.3.2 Gellir diswyddo'r Arweinydd pan fydd y Cyngor yn penderfynu cael gwared arno/arni o'i swydd yn unol â'r Rheolau isod.

6.3.3 Bydd yr Arweinydd yn peidio bod yn Arweinydd os yw ef/hi yn cael ei atal neu ei anghymhwyso fel Cynghorydd, neu, am resymau eraill o'r fath, ni all gyflawni rôl Arweinydd.

6.3.4 bydd yr Arweinydd yn peidio bod yn Arweinydd yn dilyn marwolaeth neu ar ôl dioddef unrhyw anabledd fydd, neu fydd yn debyg o'u hatal rhag ymgymryd â rôl Arweinydd am gyfnod o dri mis neu fwy.

**2.4 Dirprwy Arweinydd**

6.4.1 Penodiad

Mae'n bosibl y bydd yr Arweinydd yn penodi Aelod o'r Cyngor fel Dirprwy i ymgymryd â thasgau fel bydd yr Arweinydd yn penderfynu o dro i dro.

6.4.2 Dyletswyddau'r Dirprwy Arweinydd

Gall y Dirprwy Arweinydd arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd os bydd y swydd yn wag neu os yw'r Arweinydd yn absennol neu fel arall yn methu â gweithredu.

6.4.3 Diswyddo o'r Swydd

Gall yr Arweinydd, os yw ef/hi yn ei ystyried yn briodol, ddiswyddo'r Dirprwy Arweinydd o'i swydd ar unrhyw adeg.

## 2.5 Swyddogaethau ac Awdurdod Dirprwyedig

### 6.5.1 Aelodaeth y Cabinet

Mae'r Arweinydd yn penodi ac yn diswyddo Aelodau o’r Cabinet yn amodol ar nad oes ond o leiaf dau, ac uchafswm o naw Aelod o'r Cabinet (heb gyfrif yr Arweinydd) ar unrhyw adeg. Gall y nifer hwn gynyddu yn unol ag Adran 5.13.2 (b) os bydd rhywun yn rhannu swydd i 13. Wrth benodi cynghorwyr eraill o’r fath, bydd yr Arweinydd yn gweithredu er budd gorau y Fwrdeistref Sirol ac yn cydymffurfio â’r Protocol ar gyfer penodi Cynghorwyr i’r Cabinet.

### 6.5.2 Rôl yr Arweinydd

- Darparu arweinyddiaeth wleidyddol i'r Cyngor
- Penodi i’r Cabinet
- Penderfynu ar bortffolios aelodau’r Cabinet
- Cynrychioli'r Awdurdod a gweithredu fel llysgennad ar gyfer yr Awdurdod
- Darparu arweinyddiaeth o fewn y portffolio
- Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd
- Cymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau ar y cyd y Cabinet
- Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad
- Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol
- Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

### 6.5.3 Cynllun Dirprwyaethau’r Cabinet

(a) Yn amodol ar (b) isod bydd cynllun dirprwyo'r Cyngor yn ddarostyngedig i’w fabwysiadu gan y Cyngor a dim ond gan y Cyngor y caiff ei ddiwygio. Bydd yn cynnwys y manylion sy'n ofynnol yn Adran 6.12 o'r Cyfansoddiad hwn.

(b) Gan fod yr Arweinydd yn gallu penderfynu pa un ai i ddirprwyo swyddogaethau’r Cabinet, gall ef/hi ddiwygio’r cynllun dirprwyo sy’n ymwneud a swyddogaethau’r Cabinet unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, mae’n rhaid i’r Arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i’r Swyddog Priodol (e.e. Swyddog Monitro) a’r unigolyn, corff neu bwyllgor dan sylw. Mae’n rhaid i’r rhybudd nodi faint o newid sydd i’r cynllun dirprwyo, a pha un a yw’n cynnwys cael gwared â dirprwyaeth oddi wrth unrhyw unigolyn, corff, pwyllgor neu’r Cabinet cyfan. Bydd y Swyddog Priodol yn adrodd am y newidiadau a wnaed i’r cynllun dirprwyo gan yr Arweinydd i’r cyfarfod nesaf o’r Cyngor er gwybodaeth.

(c) Ble bydd yr Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth o bwyllgor, ystyrir y bydd rhybudd wedi’i gyflwyno ar y pwyllgor hwnnw pan fydd wedi’i gyflwyno i’w gadeirydd.

(d) Yn ogystal, mae gan yr Arweinydd bwerau o dan adran 15(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ryddhau yn bersonol neu i drefnu i ryddhau o dan bwerau dirprwyedig eraill unrhyw swyddogaethau gweithredol gan y Cabinet heb eu cynnwys yn y Cynllun Dirprwyo am y tro.

(e) DS: Ni all unrhyw Aelod o'r Cabinet gael Dirprwy, ar wahân i'r Arweinydd. Mae hyn yn golygu na all unrhyw Aelod o’r Cabinet gael cyfrifoldebau sy'n golygu y byddant yn gweithio i, neu o dan, Aelod arall o'r Cabinet, ar wahân i'r Arweinydd.

6.5.4 Cyfarfodydd y Cabinet

Yn amodol ar y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o bob cyfarfod o leiaf dri diwrnod gwaith clir cyn iddo ddigwydd, ac amodau eraill a geir yn Adran 15 [Rheol Gweithdrefn Hawl i Wybodaeth], gall yr Arweinydd alw cyfarfodydd y Cabinet ar adegau ac mewn lleoliadau fel y mae ef/hi yn dewis (DS: y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151, a'r Swyddog Monitro i gyd, pe bai angen, alw cyfarfodydd o’r Cabinet yn ogystal).

6.5.5 Cadeirio Cyfarfodydd y Cabinet

Bydd yr Arweinydd yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet. Yn absenoldeb yr Arweinydd bydd y Dirprwy Arweinydd yn cadeirio. Os na fydd y Dirprwy Arweinydd ar gael bydd y Cabinet yn penodi Aelod o’r Cabinet i Gadeirio’r cyfarfod ar eu rhan drwy hysbysu’r Swyddog Priodol am ddewis yr unigolyn, yn amodol ar cworwm.

6.5.6 Gweithredu fel un o Gynrychiolwyr y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

(c) Bydd yr Arweinydd yn un o ddau gynrychiolydd y Cyngor mewn cyfarfodydd o’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(d) Gall yr Arweinydd enwebu aelod arall o’r Cabinet i fynychu cyfarfod o’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu habsenoldeb. Bydd yr Arweinydd yn enwebu’r Dirprwy Arweinydd i fynychu yn eu habsenoldeb oni bai nad yw’r Dirprwy Arweinydd ar gael chwaith, yn yr achos hwnnw bydd yr Arweinydd yn enwebu Aelod arall o’r Cabinet.

6.5.7 Gweithredu fel Aelod o’r Cyngor ar Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Bydd yr Arweinydd yn gweithredu fel Aelod o’r Cyngor ar Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Ble nad yw’r Arweinydd yn gallu rhyddhau ei swyddogaethau mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, bydd y Cyngor yn penodi aelod arall o’r Cabinet i ryddhau’r swyddogaethau hynny ar ran y Cyngor.]

6.5.8 Penodi Cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol

Mae gan yr Arweinydd awdurdod i benodi cynrychiolwyr o’r Cyngor ar gyrff allanol ble mae’r cyrff allanol hynny yn ymwneud â Swyddogaethau’r Cabinet o’r Cyngor.